



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme




ANNUAL REPORT 2021/2022

CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED
HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS) –
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021–2022

YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL
FELINDRE

TRWY
BARTNERIAETH CYDWASANAETHAU
GIG CYMRU

A
CHANOLFAN GANSER FELINDRE



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Cynnwys

4

Cyflwyniad

5

Pwrpas yr
adroddiad

6

Materion sy'n
codi yn ystod
2021-2022

9

Grŵp
Llywodraethu

11

Cymorth
Ariannol

12

Y Broses Apelio

13

Gwasanaeth
Hawliau Lles

16

Gwasanaeth
Seicoleg a
Llesiant
Emosiynol

21

Gweithgarwch
buddiolwyr
2021-2022

22

Adroddiad
Ariannol

23

Adroddiad
Perfformiad

24

Cais Newydd am
Gymorth
Ariannol

25

Grantiau
Cefnogaeth a
Chymorth

27

Rhagolwg 2022-
2023

Cyflwyniad

Wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2017, bwriad Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG.

Ar ôl cymryd yr awenau gan gynlluniau presennol y DU (Ymddiriedolaeth Eileen, Ymddiriedolaeth Macfarlane, MFET Ltd, Cronfa Skipton a Sefydliad Caxton), sydd bellach yn cael eu hadnabod fel sefydliadau Alliance House (AHOs), nod WIBSS yw cynnig gwasanaeth taliadau ariannol symlach a chymorth wedi'i deilwra i fuddiolwyr Cymru. Mae WIBSS hefyd yn cynnig Gwasanaeth Hawliau Lles a Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant pwrpasol.

Mae WIBSS yn cefnogi 217 o fuddiolwyr, sy'n cynnwys gwŷr, gwragedd a phartneriaid mewn profedigaeth. Serch hynny, darperir y cymorth llesiant a seicolegol hefyd i aelodau eraill o deuluoedd ein buddiolwyr.



Pwrpas yr Adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau cyllid a chymorth yn ystod 2021–22 yn rhan o Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru;
 - manylu ar y gwaith rhagweithiol a wnaed gan WIBSS yn ystod 2021–22;
- ac
- edrych ymlaen at flaenoriaethau WIBSS sy'n berthnasol i 2022–23.



Materion allweddol yn codi yn ystod 2021–22

COVID-19 – Y Pandemig

Ym mis Mawrth 2020 bu'r DU dan gyfyngiadau symud am y tro cyntaf oherwydd y pandemig COVID-19 byd-eang. Dywedwyd wrth bawb y dylai weithio gartref pe bai modd ac roedd hyn yn cynnwys staff WIBSS. Llwyddon ni i drosglwyddo i'r dull hwn o weithio a gweithredu ar sail "busnes yn ôl yr arfer" drwy gydol 2021–22.

Parhaon ni i wneud yr holl daliadau rheolaidd ac i gynnig cymorth a chefnogaeth i'n holl fuddiolwyr, gyda llawer ohonynt yn gwarchod eu hunain oherwydd eu cyflwr. Darparon ni ddiweddariadau a chyngor ar ein gwefan ac roeddent ar gael drwy gydol y cyfnod, er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a darparu gwiriadau budd-daliadau ac ati. Er bod angen i ni roi'r gorau i ymweliadau â chartrefi, cynigion ni wasanaethau cwnsela a llesiant o bell dros y ffôn, ar Microsoft Teams neu Skype, yn lle hynny.

Ymchwiliad Cyhoeddus – Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol yw hwn a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau pan roddwyd gwaed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig o 1970 ymlaen.

Yn 2021–2022 ymatebon ni i bedwar cais Rheol 9 gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Roedd y ceisiadau'n gofyn am eglurhad o'r wybodaeth yn y datganiad tyst a ddarparwyd cyn hynny gan Alison Ramsey, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg PCGC, cyn iddi ymddangos gerbron yr ymchwiliad ym mis Mai 2021. <https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/evidence/transcript-london-thursday-20-may-2021-vaughan-gething-and-alison-ramsey>, ac yn dilyn ei hymddangosiad.

Wrth ddarparu tystiolaeth i'r Ymchwiliad, ymrwymodd tîm WIBSS i bwysu a mesur, ac adolygu ein holl weithdrefnau, dogfennau, sianeli cyfathrebu e.e. ein gwefan a chylchlythyrau ac ati. Nododd yr adolygiad hwn rai meysydd lle'r oedd angen i ni ddiweddarau ein cyngor a'n harweiniad i adlewyrchu'r newidiadau ers i'r gwasanaeth gael ei sefydlu. Roedd hyn yn cynnwys diweddarau rhai o'n ffurflenni cais a gwella'r canllawiau ar gyfer llenwi rhai o'r ffurflenni hynny. Mae'r wefan a'r dogfennau bellach wedi'u hadnewyddu i roi darlun cywir o'r modd y darperir y gwasanaeth.

Materion allweddol yn codi yn ystod 2021–22

Cydraddoldeb ar draws pedair gwlad y DU

Pan sefydlwyd y pedwar cynllun gwaed heintiedig datganoledig yn 2017, roedd tri o'r pedwar yn gweithredu'n bennaf ar delerau a chyfraddau talu tebyg. Dewisodd yr Alban fodel ychydig yn wahanol. Cyflwynodd WIBSS wasanaeth hawliau lles, nad oedd gan y cynlluniau eraill, ond roedd y cyfraddau talu yn debyg i'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddechrau.

O 1 Ebrill 2019, cyfarwyddodd Llywodraeth y DU Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Lloegr (EIBSS) i gynyddu cyfraddau talu eu buddiolwyr yn sylweddol, gan arwain at wahaniaethau rhwng y cynlluniau. Sbardunodd hyn wedyn gyfres o gyfarfodydd rhwng swyddogion y llywodraeth ar draws y pedair gwlad gyda'r nod o ddod i gytundeb ar gydraddoldeb ar draws y pedwar cynllun.

Bu tîm cyllid WIBSS yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth y DU i fodelu'r costau amcangyfrifedig, gan gynnwys elfennau wedi'u hól-ddyddio ac amcangyfrif ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Ar 25 Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd fod cytundeb ar gydraddoldeb wedi'i gyrraedd ac y byddai taliadau'n cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn galendr (Rhagfyr 2021).

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwaed-heintiedig-y-diweddaraf-ar-gydraddoldeb-ariannol>
Dan y model cydraddoldeb, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021, cyfanswm y cyllid ychwanegol gofynnol oedd £13.1 miliwn yn 2021/22. Roedd hyn hefyd yn cynnwys rhai elfennau ôl-ddyddiedig mewn perthynas â 2019/20 a 2020/21.

Yn dilyn y cyhoeddiad, bu staff WIBSS yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i egluro manylion tebygol y cytundeb, ac yna cyfrifo'r taliadau unigol i'w gwneud i bob buddiolwr ar WIBSS.

Roedd hwn yn waith cymhleth, a oedd yn gofyn am roi sylw i fanylion er mwyn sicrhau y gellid gwneud taliadau cywir yn brydlon i fuddiolwyr WIBSS.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cyfarwyddiadau terfynol ar 13 Awst 2021 a gwnaed y taliadau ar 20 Awst 2021.

Yn ystod hanner olaf 2021–22, gwnaed dau addasiad cydraddoldeb pellach:

- Talwyd y cyfandaliad ychwanegol o £30,000 i weddwon a gyd-heintiwyd â Cham 1 HIV a Hep C.
- Cafodd gweddwon daliadau tanwydd y gaeaf.

Materion allweddol yn codi yn ystod 2021–22

Fframwaith iawndal

Ym mis Mai 2021, cyhoeddwyd bod Syr Robert Francis QC wedi'i benodi i ystyried fframwaith iawndal ar gyfer y bobl hynny oedd wedi'u heintio ac yr effeithiwyd arnynt gan y sgandal gwaed heintiedig. Cylch gorchwyl y Fframwaith oedd:

- Rhoi cyngor annibynnol i'r Llywodraeth ynghylch dyluniad fframwaith ymarferol a theg ar gyfer iawndal i unigolion sydd wedi'u heintio ac yr effeithir arnynt ledled y DU i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhai sy'n gymwys ar gyfer iawndal ni waeth ble yn y DU y digwyddodd y driniaeth berthnasol neu'r man preswyllo. Tra bydd yr Astudiaeth yn ystyried y gwahaniaethau yn yr arferion presennol a/neu'r gyfraith yn y gwledydd datganoledig, ni ofynnir iddo ystyried a ddylai'r gwaith o gyflawni'r fframwaith hwnnw gael ei reoli'n ganolog neu yn unigol gan y gweinyddiaethau datganoledig.
- Cyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion i'r Llywodraeth cyn gynted ag y bo modd ac nid yn hwyrach na diwedd Chwefror 2022 [diwygiwyd i 14 Mawrth 2022], i roi cyngor i'r Llywodraeth ar opsiynau posibl ar gyfer dylunio fframwaith iawndal.

Ym mis Ionawr 2022, cyfarfu Rheolwr WIBSS, ynghyd â'r rheolwr polisi o Lywodraeth Cymru, â Syr Robert a'i staff i drafod gweithrediad WIBSS a'r hyn yr oedd y buddiolwyr ei eisiau o'r fframwaith.

Esboniodd Rheolwr WIBSS weithrediad y cynllun a thynnodd sylw at y ffaith bod WIBSS yn gweithredu gwasanaeth cyfannol "cofleidiol", sy'n darparu nid yn unig cymorth ariannol, ond hefyd cymorth hawliau lles a gwasanaeth seicoleg a llesiant pwrpasol, wedi'i staffio gan bobl sydd â gwybodaeth dda am y maes pwnc, a all empatheddio a deal y materion y mae ein buddiolwyr yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Er ein bod yn teimlo bod y cymorth ariannol yn bwysig, mae llawer o'n buddiolwyr wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth wyneb yn wyneb, y rhyngweithio personol â nhw a'r ffaith bod y gwasanaeth ar gael yn hawdd. Ni fyddent am golli hynny, mewn unrhyw wasanaeth diwygiedig a gynigir.

Cyflwynodd Syr Robert Francis ei adroddiad i Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2022 i'w ystyried. Ymddangosodd hefyd gerbron yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig i drafod yr adroddiad ym mis Gorffennaf.

Ar 29 Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd y byddai taliadau interim o £100,000 yn cael eu rhoi i bawb sydd ar gofrestr un o ddau Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig y DU ar hyn o bryd, a hynny erbyn mis Hydref 2022. Ysgrifennodd y cynlluniau i gyd at eu buddiolwyr yn eu hysbysu o hyn.

O ganlyniad i'r cyhoeddiad, derbyniodd WIBSS nifer cynyddol o ymholiadau ynghylch sut i gofrestru gyda'r cynllun.

Grŵp Llywodraethu

Mae'r Grŵp Llywodraethu yn monitro rheolaeth weithredol WIBSS ac yn darparu trefn lywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer y cynllun, ar ran Llywodraeth Cymru (LIC) drwy Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae Grŵp Llywodraethu WIBSS [Canolfan Ganser Felindre (VCC) a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC)] wedi'i awdurdodi i wneud y canlynol:

- Ymchwilio i unrhyw waith o fewn ei Gylch Gorchwyl, ac wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd ganddo'r hawl, ar bob adeg resymol, i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth, sy'n berthnasol i gylch gwaith y Timau Llywodraethu, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Gall geisio unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arno gan unrhyw weithiwr, a chyfarwyddir pob cyflogai i gydweithredu ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan y Bwrdd

Mae wedi'i rymuso â chyfrifoldeb am y canlynol:

- Adolygu a chynghori ar reolaeth cyllidebau WIBSS, gan gynnwys costau rhedeg, cyllidebau blynyddol y buddiolwyr a darpariaethau
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar newidiadau mewn cyfraddau a goblygiadau posibl newidiadau polisi o ran cyllid a gwasanaethau, yng Nghymru ac mewn ardaloedd eraill yn y DU
- Gweithredu polisi Llywodraeth Cymru
- Cyd-drafod a phartneriaeth barhaus gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

Mae aelodaeth Grŵp Llywodraethu WIBSS fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Canolfan Ganser Felindre
- Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg, PCGC
- Rheolwr Gwasanaethau WIBSS
- Cynrychiolydd Cyllid Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd Polisi Llywodraeth Cymru
- Uwch Reolwr Hawliau Lles / Dirprwy Reolwr WIBSS
- Seicolegydd Ymgynghorol

Grŵp Llywodraethu

The membership of the WIBSS Governance Group is as follows:-

- Director of Corporate Governance, Velindre University NHS Trust (Chair)
 - Director of Operations, VCC
- Director of Planning, Performance and Informatics, NWSSP
 - WIBSS Service Manager
- Welsh Government Finance Representative
- Welsh Government Policy Representative
 - Senior Welfare Rights Manager
 - Consultant Psychologist

In 2021-22 the Governance Group met on 21st July and 14th December and 29th March 2022, postponed to 5th April 2022.



Cymorth Ariannol

Mae'r cynllun yn cydnabod bod unigolion sy'n byw gyda hepatitis C a/neu HIV yn wynebu costau ychwanegol am bethau fel yswiriant, yswiriant teithio, costau gofal a chostau teithio i fynychu apwyntiadau ysbyty ac ati. Mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer:

- Ymgeiswyr Newydd i'r cynllun
- Aelodau o gynlluniau etifeddiaeth blaenorol

Mae lefelau amrywiol o gymorth ariannol ar gael i fuddiolwyr y cynllun. Nodwyd y rhain yn ein Hadroddiad Blyneddol 2020–2021 ac maent ar wefan WIBSS [Hafan – WIBSS \(wales.nhs.uk\)](https://www.wibss.wales.nhs.uk).

Y Broses Apelio

Os bydd cais i ymuno â'r cynllun yn aflwyddiannus, gall ymgeisydd apelio os yw'n anghytuno â chanlyniad ei gais. Gwrandewir ar apelïadau gan banel o arbenigwyr meddygol annibynnol sydd â phrofiad clinigol perthnasol neu brofiad tebyg yn y maes.


Ni fydd apêl yn cael ei hystyried mewn achosion lle cydnabyddir nad yw'r ymgeisydd yn gymwys o dan y meini prawf cymhwysedd presennol, ond bod yr ymgeisydd yn anghytuno â'r meini prawf hynny (mewn achosion o'r fath, dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddiwygio'r meini prawf cymhwysed y gellir ailystyried y cais).

Yn ystod 2021–22, cyflwynwyd dwy apêl, a chynullwyd panel apelïadau ym mis Mawrth 2022. Penderfynodd un apelydd ohirio ei hapêl, cyn i'r Panel Apêl ei hystyried. Ystyriodd y Panel weddill yr apêl.

Ystyriodd y panel yr holl ddogfennaeth a dderbyniwyd gan WIBSS a manylu ar broses gwneud penderfyniadau WIBSS. Ymddangosodd yr apelydd hefyd o flaen y panel i gyflwyno ei achos. Yna ystyriodd y panel yr holl dystiolaeth, a chadarnhaodd y penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan WIBSS i wrthod y cais a hysbyswyd yr apelydd o benderfyniad y panel.

Nid yw proses y panel apelïadau yn cwmpasu apelïadau sy'n ymwneud â'r broses Grantiau Bach Dewisol. Ar ddechrau WIBSS nid oeddem yn credu bod y broses apelio ffurfiol yn gymesur o ystyried gwerth y grantiau hyn. Hyd yn hyn nid ydym wedi gwrthod unrhyw geisiadau am grantiau bach. Fodd bynnag, oherwydd y cwestiynwyd hyn yn ystod ymddangosiad WIBSS yn yr Ymchwiliad, gwnaethom ystyried y mater ac rydym wedi cyflwyno system lai ffurfiol o ailystyried ar gyfer unrhyw geisiadau am grantiau bach a allai gael eu gwrthod yn y dyfodol.

Mae'r dull yn caniatáu i ymgeisydd, sy'n anhapus â chanlyniad ei gais am grant, ei ailgyflwyno i WIBSS i'w ailystyried. Bydd Rheolwr WIBSS yn trefnu i'r penderfyniad gael ei ystyried gan rywun sy'n annibynnol o'r broses benderfynu wreiddiol. Yn rhan o'n hadolygiad cyffredinol o'n dogfennaeth a'n canllawiau, rydym wedi diwygio'r adran grantiau bach i adlewyrchu'r newidiadau hyn.



Gwasanaeth Hawliau Lles

Mae'r Gwasanaeth Hawliau Lles yn cynnig gwasanaeth pwrpasol i'r buddiolwr unigol a'i deulu. Mae'r cynghorwyr hawliau lles wedi'u hachredu gan Safonau Ansawdd Cyngor (AQS) ac yn ymgymryd ag addysg broffesiynol barhaus gyda darparwyr hyfforddiant llesiant arbenigol.

Er nad yw'n hollgynhwysfawr, mae'r rhestr isod yn dangos rhai o'r pethau y gallwn gynnig cymorth ar eu cyfer:

- cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod anghenion cymhleth buddiolwyr yn cael eu diwallu, h.y. cymorth gan weithiwr cymdeithasol neu therapi galwedigaethol i gael addasiadau diogelwch i gartref y buddiolwr.
- cyfeirio at ofal deintyddol y GIG a gwasanaethau presgripsiwn am ddim, i'r rhai sy'n gymwys.
- cynorthwyo gyda gwneud cais i ymuno â WIBSS – gan gynnwys gofyn am gofnodion meddygol neu fynd ar ôl gweithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu tystiolaeth angenrheidiol i gefnogi cais.
- ymgymryd â gwiriadau budd-daliadau a llesiant, cyfeirio dyled, cyngor cyllidebu, llywio cynhyrchion ariannol ac ati.
- gwneud cais am fathodyn parcio (Bathodyn Glas), teithio am ddim ar fysiau a chonsesiynau.
- dod o hyd i wasanaethau iechyd, megis cymorth gydag anghenion gofal ychwanegol a chludiant gofal iechyd

Mae WIBSS hefyd yn cydnabod nad yw iechyd buddiolwr yn effeithio arnyn nhw'n unig. Gall hefyd gael effaith sylweddol ar y rhai sy'n gofalu amdanynt. Gall ein cynghorwyr hawliau lles hefyd ystyried amgylchiadau aelodau teulu agos a gofalwyr. Gallant wirio eu hawl i fudd-daliadau a gofynion cymorth ychwanegol, a allai helpu i wella amgylchiadau ariannol cyffredinol.

Cefnogaeth gweithiwr allweddol

Gwasanaeth arall a ddarperir yw cymorth gweithiwr allweddol, sy'n cynnwys:

- cysylltu â buddiolwyr ac aelodau'r teulu ehangach i sefydlu perthynas o ymddiriedaeth a darparu cymorth emosiynol, y tu allan i atgyfeiriadau seicoleg a llesiant ffurfiol.
- gwiriadau allanol rheolaidd gyda buddiolwyr yr ystyrir eu bod yn agored i niwed.
- cwblhau gwaith papur a helpu i roi trefn ar faterion y sawl nad ydynt yn gallu gwneud hynny eu hunain.

Yn aml, y gwasanaeth hawliau lles yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer diweddariadau a sicrwydd ar faterion sy'n effeithio ar WIBSS.



Gwasanaeth Hawliau Lles

TRoedd y diffyg cydraddoldeb yn y gwerthoedd talu rhwng y pedwar cynllun yn ysgogi teimladau o ddieter, ynghyd ag amheuon ynghylch a fyddai'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn dod o hyd i'r atebion y maent yn chwilio amdanynt. Darparodd y tîm Llesiant sicrwydd a chyngor i fuddiolwyr gan gwestiynu'r effaith y byddai'r ôl-daliadau'n ei chael ar eu harian, budd-daliadau ac amgylchiadau personol eraill. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyngor ar roi arian i deulu a ffrindiau, cyngor ar gyllidebu a hawl i fudd-daliadau parhaus.

Rhaglen 'Datganiad Cronfeydd Ex-gratia' yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Ym mis Mawrth 2022, bu'r cynghorwyr hawliau lles yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gynnal rhaglen 'datganiad cronfeydd ex-gratia'. Roedd newid yn y rheolau yn golygu bod angen i daliadau WIBSS bellach gael eu datgan wrth wneud cais am rai budd-daliadau prawf modd. Fodd bynnag, oherwydd sensitifrwydd taliadau WIBSS, roedd rhai o'n buddiolwyr yn amharod i ddatgan eu taliadau WIBSS, oherwydd y stigma canfyddedig a oedd ynghlwm wrthynt o'r blaen. Bu achosion hefyd lle nad oedd taliadau WIBSS wedi'u diystyru gan staff yr Adran Gwaith a Phensiynau, wrth asesu hawl i fudd-daliadau.

Cysylltodd tîm Llesiant WIBSS â'r Adran Gwaith a Phensiynau i archwilio sut y gellid lliniaru'r problemau. O ganlyniad i'r cydweithio, anfonwyd llythyr wedi'i deilwra i fuddiolwyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi sicrwydd iddynt, ac anfonwyd memorandwm i adrannau budd-daliadau ac awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ailadrodd y diystiriadau a'r rheoliadau sy'n eithrio taliadau WIBSS i'r staff.

Gwasanaeth Hawliau Lles


Astudiaeth Achos

Er mwyn darparu gwasanaeth teg i'n buddiolwyr, mae ein cynghorwyr hawliau lles yn teithio ledled y DU i roi cymorth. Roedd astudiaeth achos A yn cynnwys taith gron o 455 milltir, gan fod y buddiolwr wedi gofyn am ymweliad cartref. Er i ni barhau i ddarparu ein gwasanaethau o bell yn ystod y pandemig, cyn gynted ag y cafodd cyfyngiadau COVID eu codi, fe wnaethom drefnu i ymweld â'r buddiolwr hwn. Roedd wedi bod yn amharod i dderbyn cymorth o bell, oherwydd ei nerfusrwydd a'i wybodaeth gyfyngedig o dechnoleg.

Arweiniodd y gwiriad budd-dal a gynhaliwyd at y cymhwysedd canlynol:

- cais llawn am Gredyd Cynhwysol, gan gynnwys costau tai i helpu tuag at rent,
- adolygiad o hawliau Taliad Annibyniaeth Personol oherwydd dirywiad mewn iechyd,
- cais am bresgripsiynau GIG am ddim yn Lloegr
- gostyngiad llawn yn y Dreth Gyngor sy'n daladwy'r flwyddyn honno.

Cyn yr ymweliad, roedd cartref y buddiolwr wedi bod yn byw ar arian WIBSS yn unig. Gyda chostau byw yn codi, mae'r buddion ychwanegol a nodwyd gan y cynghorydd hawliau lles wedi rhoi tawelwch meddwl ariannol i'n buddiolwr. Mae hyn, yn ei dro, wedi lleddfu ei bwysau iechyd corfforol a meddyliol.




Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Gweithredu a Chyflawni

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant yn parhau i ddarparu cymorth seicolegol un i un arbenigol i'r rhai sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithir arnynt.

Mae'r rhaniad rhwng y rhai sydd wedi'u heintio a'r rhai yr effeithir arnynt sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth i'w weld yn y siart isod 49% (heintiedig):51% (effeithir arnynt).



Hyd yma, mae dros 80 o bobl wedi defnyddio'r gwasanaeth. Y llwyth achosion presennol yw 34.

Am y rhan fwyaf o 2021/2022, darparwyd therapi yn rhithwir neu dros y ffôn, oherwydd cyfyngiadau COVID. Cyn gynted ag y cafodd cyfyngiadau COVID eu lleddfu, ailgyflwynwyd apwyntiadau wyneb yn wyneb. Lle bo modd, ar gais, mae'r tîm hefyd yn darparu ymweliadau cartref i'r rhai â phroblemau symudedd a/neu gydafiacheddau cronig sy'n gysylltiedig yn aml â Hep C, HIV/AIDS neu'r driniaeth a dderbyniwyd, megis Interferon.

Mae therapi yn canolbwyntio'n fawr ar ddatblygu'r berthynas therapiwtig gyda'r cleient. Mae'n ymdrechu i sicrhau cysondeb ac i hybu ymddiriedaeth a dibynadwyedd mewn gwasanaeth cymorth sy'n gysylltiedig â system y GIG, a ddarparodd y gwaed a'r cynhyrchion gwaed heintiedig sydd wedi cael effaith mor ddinistriol ar eu bywydau.

Mae adborth gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn awgrymu bod y dull hwn yn llwyddiannus.

Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Mae adborth gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn awgrymu bod y dull hwn yn llwyddiannus.

Mae'r tîm wedi gallu cynnig ymyriadau therapiwtig effeithiol o amgylch lluo o themâu gan gynnwys trawma (pyllau o banig ac ôl-fflachiadau), gor-wyliadwriaeth, colled a phrofedigaeth, stigma (cyfrinachedd), ofn a theimlo'n ynysig, euogrwydd a chyfrifoldeb ar gam, byw gyda materion iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd, dicter, drwgdybiaeth, tralod a achosir gan ddiffyg dealltwriaeth a fynegwyd gan staff y GIG o ran achosion cyflyrau iechyd cronig (e.e. y dybiaeth bod rhywun â Hep C yn alcoholig a'r goblygiad ei fod yn dweud celwydd am y ffactor achosol o ddiagnosis sirosis), statws cludwr, anffrwythlondeb gorfodedig (ofn trosglwyddo HIV neu Hep C), anawsterau perthynas, pryder ac iselder.

Mae trafodion parhaus yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, y dystiolaeth ddadleuol a gyflwynwyd gan rai sydd wedi cymryd rhan, a chreu a lledaenu'r Fframwaith lawndal wedi cymhlethu ymatebion trawma llawer. Mae wedi achosi trawma seicolegol eilaidd a pharhaus, gan arwain llawer at fod yn gaeth mewn cylch o dralod seicolegol ac ail-fyw digwyddiadau poenus a thrawmatig y gorffennol.

O ganlyniad, mae therapi yn gorfod mynd i'r afael â'r ymatebion seicolegol ac emosiynol uniongyrchol i leihau niwed seicolegol pellach, yn y lle cyntaf, tra bod mynd i'r afael â thrawma hanesyddol yn dasg eilaidd mewn rhai achosion.

Mae'r tîm yn teimlo y gallai therapi ystyrllon sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad, i fynd i'r afael â thrawma hanesyddol, fod yn fwy effeithiol unwaith y bydd yr Ymchwiliad wedi'i gwblhau a'r Fframwaith lawndal wedi'i gytuno. Yn ogystal, mae therapi paratoadol ar y gweill ynghylch disgwyliadau pobl o ganfyddiadau a chanlyniad yr Ymchwiliad (realistig yn erbyn afrealistig, sut beth fydd cyfiawnder? ac ati) i leihau niwed seicolegol pellach yn y dyfodol.

Datblygiadau

Cynhaliodd y tîm ddigwyddiad grŵp ffocws ar-lein yn gynharach eleni. Fe'i cynhaliwyd trwy Zoom, oherwydd cyfyngiadau Covid. Gwahoddwyd holl aelodau WIBSS a mynychodd grŵp bach ond bywiog.

Gofynnwyd i'r mynychwyr am eu syniadau i helpu i ddatblygu'r Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant nawr bod y gefnogaeth arbenigol un i un wedi'i sefydlu'n gadarn. Mae WIBSS yn credu ei bod yn bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynegi barn wrth lunio'r gwasanaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd consensws ynghylch creu cyfleoedd cefnogaeth gan gymheiriaid a dod â phobl at ei gilydd fel cymuned, drwy brofiadau wedi'u rhannu. O ganlyniad, cytunwyd y dylid cyflwyno'r syniadau canlynol i gymuned ehangach WIBSS am eu mewnbwn a'u barn:

- 1) Zoom rheolaidd a/neu gyfarfodydd rhanbarthol wyneb yn wyneb, i alluogi pobl i ddod at ei gilydd a thrafod themâu a phynciau cyffredin yn ymwneud â llesiant a rhannu profiadau unigol.

Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

2) Digwyddiad cymdeithasol rhanbarthol grŵp a/neu Cymru gyfan, i ddod â phawb sydd wedi'u heintio a'u heffeithio at ei gilydd, gyda'r nod o greu cymuned gyffredin. Gallai'r digwyddiad o bosib gwmpasu gweithdai gyda chyfleoedd seico-addysgol, cysylltiadau i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid a siaradwyr gwadd.

3) Creu system 'gyfeillio', lle gall pobl gofrestru eu diddordeb mewn cael eu paru ag eraill yn eu cymuned (grwpiau bach neu un-i-un), i leihau teimlo'n ynysig a chreu cysylltiadau ag eraill trwy rannu profiadau a chyfeillgarwch.

Gofynnwyd i holl aelodau WIBSS fynegi diddordeb mewn perthynas â'r syniadau hyn, y mae'r tîm yn bwriadu eu rhoi ar waith yn ddiweddarach eleni, yn seiliedig ar adborth.

Yn ogystal, mae'r tîm wedi sefydlu'r Rhwydwaith Seicoleg Gwaed Heintiedig gyda chydweithwyr o wasanaethau seicoleg Iwerddon a'r Alban. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis i rannu syniadau, gwybodaeth, arferion gorau, themâu cyffredin a chyfleoedd posibl ar gyfer ymchwil a gwaith trawsffiniol.

Mae cydweithwyr o GIG Lloegr hefyd wedi ymgynghori â'r rhwydwaith i helpu i lunio gwasanaeth seicoleg Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Lloegr (EIBSS), gyda phwyslais ar bwysigrwydd darparu gwasanaeth arbenigol.

Mae'r Rhwydwaith hefyd yn archwilio ac yn trafod ymchwil gyhoeddedig ynghylch effaith wybyddol Hep C gyda'r nod o greu fframwaith asesu cyffredin ar draws y rhwydwaith i asesu'r aelodau hynny sydd â nam gwybyddol. Gallai'r fframwaith hefyd gael ei gymhwyso i'r rhai sydd â HIV.

Tystebau

Gofynnwyd am adborth gan y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, ac maent wedi rhoi caniatâd i'w tystiolaeth gael ei rhannu.

Tysteb 1

Awgrymodd ffrind y dylwn gysylltu â WIBSS, gan ei fod yn ymwybodol bod mynychu'r ymchwiliad cyhoeddus yng Nghaerdydd wedi effeithio ar fy iechyd. Roeddwn wedi rhoi cynnig ar gwnsela, trwy fy ngweithle, ond canfûm ei fod yn gyfyngedig o ran amser h.y. chwe sesiwn, ac nid oedd mor ddefnyddiol â hynny. Yn y diwedd, ni allwn ymdopi â fy emosiynau, felly cysylltais â WIBSS, ac rwyf mor falch fy mod wedi gwneud hynny. Mae gennyf bellach gymorth a chefnogaeth gan fy nghwrselydd, sydd nid yn unig â mewnwelediad gwych o'r mater Gwaed Heintiedig, ond sydd hefyd yn gwerthfawrogi bod ein dioddefaint wedi'i brofi ers cryn amser, ac felly bydd yn cymryd amser i allu goresgyn yr anawsterau.

Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Mae'r cwnsela hwn wedi'i deilwra i weddu i'm hanghenion ac nid wyf yn teimlo dan bwysau i wella'n gyflym. Rwyf wedi cymryd camau cynyddol a hefyd wedi cymryd camau yn ôl, ond gwn, waeth beth sydd arnaf, fod gennyf gefnogaeth ac anogaeth lawn fy nghwrselydd sy'n rhoi cryfder i mi ddal ati. Mae pob sesiwn yn gadael i mi deimlo fy mod yn gallu ymdopi mwyfwy â fy mhroblemau. Mae COVID-19 wedi effeithio ar fy iechyd meddwl. Fodd bynnag, unwaith eto mae'r cwnsela wedi'i deilwra i weddu i'm hanghenion presennol. Byddwn yn cynghori unrhyw un sy'n ystyried ceisio cwnsela i gysylltu â WIBSS. Mae'r cwnsela hwn mor wahanol. Mae'n ddefnyddiol, yn gefnogol ac yn addasu i'r unigolyn.

Tysteb 2

Rwy'n berson normal, rwy'n byw bywyd normal, ond weithiau rwy'n cael fy hun yn crio fy hun i gysgu ac rwy'n ei guddio. Rydw i yn y car, ac mae'r dagrau'n dod o unman. Pam ydw i'n teimlo mor drist ac yn unig pan mae gen i gymaint o bobl o'm cwmpas, ffrindiau a theulu?

Nid yw bob amser wedi bod yn hawdd, nid dim ond y gwaed drwg a phopeth sy'n dod ag ef, ond llawer o bethau eraill na ddylai person orfod ymdopi â hwy na'u profi. Ond rwy'n berson cryf a gallaf ymdopi, fi yw'r un sydd ei angen ar bawb i'w helpu, ac yna un diwrnod ni allaf helpu mwyach, ac mae angen rhywun arnaf.

Nid yw'n hawdd cael cymorth. Nid yw'n hawdd gofyn.

Mae WIBSS yno. Gwnes i lenwi ffurflen ychydig flynyddoedd yn ôl i ddweud sut roeddwn i'n teimlo, a daethant i fy helpu. Mae cael rhywun i siarad â nhw am rywbeth neu am ddim byd fel rhwyd ddiogelwch. Dydw i ddim yn gwybod pam, ond dyna fel y mae. Edrychaf ymlaen at y galwadau. Mae'n fy helpu. Gallai eich helpu chi hefyd.

Tysteb 3

Cafodd y driniaeth a gefais ar gyfer Hepatitis C effaith ddinistriol ar fy mywyd. Canfûm fod siarad â Gwasanaeth Llesiant WIBSS yn galonogol ac mae wedi fy helpu i ddeall rhai o'r materion emosiynol a seicolegol rwyf wedi bod yn delio â nhw. Yn benodol, siarad am rai problemau rwyf wedi eu cael gyda fy mherthynas, gyda fy nheulu a fy ffrindiau. Mae wedi fy ngalluogi i roi pethau yn eu cyd-destun ac wedi fy ngalluogi i wella pethau. Mae siarad â rhywun y tu allan i fy nghylch wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Yn ogystal, mae rhai ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar y cyflwynodd hi mi iddynt wedi fy helpu gyda fy anawsterau cysgu.

Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Tysteb 4

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn helpu ein mab, sydd wedi bod yn cael trafferth gyda materion yn ymwneud ag iechyd ei dad, gan roi ffyrdd iddo helpu i ymdopi â hyn a phryder a phroblemau eraill y mae'n eu hwynebu. Mae'r sesiynau'n ddefnyddiol iawn iddo.

Tysteb 5

Penderfynais ddefnyddio'r Gwasanaeth Llesiant yn WIBSS tua blwyddyn yn ôl. Rwyf wedi elwa'n aruthrol ac wedi croesawu'r gefnogaeth a'r sicrwydd a brofais yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i bob un ohonom, yn enwedig os ydych wedi bod yn teimlo'n unig yn eich cartref eich hun. Yn ogystal â hyn, bu gwrandawiau'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig, a allai fod wedi atgoffa llawer ohonom o gyfnodau trawmatig a thorcalonnus iawn, gan ail-greu atgofion anodd.

Mae'r Gwasanaeth Llesiant wedi rhoi bagl i mi bwyso arno a rhwyd ddiogelwch, gan roi'r cymorth sydd wedi bod ei angen arnaf ers amser maith i mi. Hoffwn pe bai'r gwasanaeth hwn wedi bod ar gael ddeng mlynedd ar hugain yn ôl pan gollais fy ngŵr i AIDS.

Byddwn yn annog unrhyw un i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn sy'n gyfrinachol. Defnyddiwch ef a pheidiwch â dioddef ar eich pen eich hun. Mae help ar gael i chi.

Mae tystebau pellach ar gael ar wefan WIBSS.

Gweithgarwch buddiolwyr 2021–22

Mae 217 o fuddiolwyr a phartneriaid mewn profedigaeth wedi'u cofrestru ar gyfer cymorth drwy'r cynllun. Rhennir hyn i'r grwpiau canlynol. (Yn ddilys ar 31 Mawrth 2022).

Grŵp Buddiolwyr	Nifer y Buddiolwyr cofrestredig
Hepatitis C Cam 1	40
Hepatitis C Cam 1+ Uwch	77
Hepatitis C Cam 2	41*
HIV	2
HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig)	3
HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig)	11
HIV a Hep C Cam 2	2
Priod/partner mewn profedigaeth	41*

*Caiff 2 fuddiolwr eu dosbarthu fel buddiolwyr presennol ac fel priod/partner mewn profedigaeth.

**Bu farw 2 fuddiolwr ac 1 priod mewn profedigaeth yn ystod Ch4 2021/22. Fodd bynnag, maent yn dal i gael eu cynnwys yn y niferoedd uchod ac maent yn parhau i dderbyn taliadau tan ddiwedd y chwarter y byddant yn marw, h.y. 31 Mawrth 2022.

Cyfraddau Talu 2021–22

Mae lefelau'r taliadau sydd ar gael i fuddiolwyr yn 2021/22 wedi'u nodi yn y tabl isod.

Grŵp Buddiolwyr	Taliadau Blynnyddol
Hepatitis C Cam 1	£18,912
Hepatitis C Cam 1+ Uwch	£28,680
Hepatitis C Cam 2	£28,680
HIV	£28,680
HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig)	£38,928
HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig)	£45,072
HIV a Hep C Cam 2 (Cyd-heintiedig)	£45,072

Mae WIBSS yn talu taliadau blynnyddol bob mis neu bob chwarter, yn dibynnu ar ddewis y buddiolwr. Gwneir taliadau ar yr 20fed o'r mis. Pan fydd yr 20fed yn disgyn ar ŵyl banc neu benwythnos, y diwrnod gwaith agosaf cyn yr 20fed fydd y taliad.

Telir cyfandaliadau untro annewisol hefyd i ymgeiswyr newydd llwyddiannus i'r cynllun. Er cydraddoldeb, byddai gan ymgeisydd newydd sy'n Hep C Cam 1 hawl i gyfandaliad o £50,000.

Byddai buddiolwr sy'n symud o Gam 1 Hep C i Gam 2 Hep C yn cael cyfandaliad ychwanegol o £20,000.

Byddai ymgeisydd newydd sydd eisoes wedi datblygu i Hepatitis C Cam 2 yn derbyn £70,000.

Byddai gan ymgeisydd newydd sydd â HIV hawl i gyfandaliad o £80,500. Pe bai ganddynt HIV a Hep C Cam 1 cyd-heintiedig, y cyfandaliad fyddai £80,500 + £50,000 = £130,500 a byddai Cam 2 yn £80,500 + £70,000 = £150,500.

Telir cyfandaliad untro annewisol o £10,000 hefyd i briod/partner/perthynas dibynnol mewn profedigaeth neu ystâd buddiolwr heintiedig a fu farw i gynorthwyo gyda chostau angladd.

Mae WIBSS hefyd yn gwneud taliadau rheolaidd i briod/partner/perthnasau dibynnol sy'n galaru am fuddiolwr heintiedig. Mae'r taliadau hyn yn gyfartal i 100% o'r gyfradd yr oedd y buddiolwr ymadawedig arni adeg y farwolaeth am flwyddyn a 75% o'r gyfradd wedi hynny.

Strwythur WIBSS

The main WIBSS team consists of eight members of staff, led by the WIBSS Manager.

Alison Ramsey
Cyfarwyddwr Cynllunio,
Perfformiad a Gwybodeg
Partneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru

Lisa Miller
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Canolfan Ganser Felindre

Mary Swiffen-Walker
Rheolwr Cynllun Cymorth Gwaed
Heintiedig Cymru (WIBSS)

Seicoleg a Llesiant

Caroline Coffey
Seicolegydd Clinigol

Julie Armytage
Cynghorydd

Cyllid

Stefan Dakovic
Swyddog Cyllid

Cymorth Gweinyddol

Ryan Clappe
Swyddog Cymorth

Hawliau Lles

Hayley Price
Rheolwr Hawliau Lles, Dirprwy
Reolwr WIBSS

Rebecca O'Callaghan
Cynghorydd Hawliau Lles

Sarah Ferrier
Cynghorydd Hawliau Lles

Adroddiad Cyllid

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwariant ar hawliadau ar gyfer 2021–22, sy'n cynnwys taliadau blwyddyn lawn a dalwyd ar gyfraddau cydraddoldeb, ac yn cynnwys £9m o daliadau ôl-ddyddiedig, yn ymwneud â 2019/20 a 2020/21 a dalwyd yn 2021/22 o ganlyniad i'r cytundeb cydraddoldeb. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 a gweithredwyd ym mis Awst 2021. Mae'r costau hyn yn cynnwys taliadau ad-hoc, gweddwon a grantiau bach.

Gwariant Hawliadau WIBSS	2021-22	Cymharol 2020–21
Nifer y Buddiolwyr	217*	176
Nifer y Buddiolwyr	£7,294,727	£3,382,927
Taliadau Cydraddoldeb wedi'u Hôl-ddyddio	£0	£8,996,254
Cyfanswm Taliadau i Fuddiolwyr	£7,294,727	£12,379,181

**Sylwer bod gwahaniaeth yn nifer y Buddiolwyr 2021–22 o 41 yn ymwneud â thaliadau parhaus i briod/partneriaid mewn profedigaeth o ganlyniad i Gydraddoldeb.*

Sylwch fod y ffigurau uchod wedi bod yn destun newidiadau yn ystod y flwyddyn, h.y. ceisiadau newydd, marwolaethau yn ystod y flwyddyn, symud o un cam i'r llall, ceisiadau ad hoc ac ati.

Mae PCGC yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ragolygon i Dîm Cyllid GIG Cymru o fewn Llywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn. Mae gweinyddiaeth y cynllun yn niwtral o ran cost i PCGC a Chanolfan Ganser Felindre, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynllun yn llawn.

Costau rhedeg ar gyfer 2021/22

Mae crynodeb o'r costau rhedeg ar gyfer 2021–22 wedi'i nodi isod gyda chymhariaeth ar gyfer 2020–21:

Costau Rhedeg WIBSS	2021-22	Cymharol 2020–21
Cyflog	£215,298*	£218,749
Gwariant	£11,328	£10,372
Cyfanswm	£226,626	£229,121

**Noder nad yw gwariant costau rhedeg 2021–22 yn gymhariaeth lawn â 2020–21. Mae'r gostyngiad mewn tâl oherwydd effaith absenoldeb mamolaeth o fewn y tîm yn ystod y flwyddyn.*

Adroddiad Perfformiad

Mae perfformiad WIBSS yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'i nodi isod.

Disgrifiad o'r dangosydd perfformiad allweddol	Targed 20/21	Statws
Ymateb i ohebiaeth o fewn terfynau amser penodol	O fewn 4 diwrnod gwaith	100%
Ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser gofynnol	Yn unol â pholisi'r Ymddiriedolaeth	100%
Delio â cheisiadau o fewn yr amserlenni gofynnol	O fewn 28 diwrnod o dderbyn gwybodaeth gyflawn	100%
Delio ag apeliadau o fewn terfynau amser penodol	100% Cyflwynwyd dwy apêl, ond tynnwyd un yn ôl gan yr apelydd cyn cynnal y panel, gan nad oedd yn gallu cael gafael ar y dystiolaeth yr oedd ei hangen arnynt. Gwrandawyd ar yr apêl arall o fewn yr amserlen ofynnol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr apêl hon wedi'i gohirio a bod angen ei haildrefnu oherwydd pwysau cysylltiedig â COVID-19 a wynebir gan glinigwyr ar y panel.	100%
Taliadau a wneir yn amserol	100% o daliadau i'w gwneud 0–2 ddiwrnod cyn y dyddiad dyledus	100%
Cynghori LIC ar godiadau costau tai CPI a'r goblygiadau cost ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf	Ym mis Chwefror bob blwyddyn	100%

Adroddiad Perfformiad

Disgrifiad o ddangosyddion hawliau lles allweddol	Statws
Cyfanswm yr achosion Hawliau Lles a agorwyd yn y 12 mis blaenorol	62
Nifer yr achosion o Gyngor Gweithiwr Allweddol yn Unig	34
Nifer y gwaith achos hawliau lles	28
Incwm a Gynhyrchir ar gyfer buddiolwyr (1 Ebrill 2021–31 Mawrth 2022)	£45,928.62
Canlyniadau sy'n weddill Mawrth 2022	<ul style="list-style-type: none">• 1 adolygiad PIP• 1 hawliad PIP• 1 hawliad Credyd Pensiwn• 1 cais am ESA

Ceisiadau Newydd am Gymorth Ariannol


Derbyniodd WIBSS 9 cais yn 2021–22.

Math o Gais	Ceisiadau a dderbyniwyd	Canlyniad
Hepatitis C Cam 1	5	Derbyniwyd 1, Gwrthodwyd 4
HIV	1	Derbyniwyd
Cais gweddwon	3	Derbyniwyd
Cyfanswm	9	Derbyniwyd 5, Gwrthodwyd 4

Pan fydd cais yn cael ei wrthod, bydd hynny oherwydd nad yw'n bodloni'r meini prawf a osodwyd yng Nghyfarwyddiadau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, neu nad oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu i gefnogi'r cais.

Cynllun Grantiau Cymorth a Chefnogaeth

Yn 2021–22 cawsom 12 cais am gymorth. Mae hyn yn gynydd o 50% o 2020–21. Credwn fod y cynnydd hwn o ganlyniad i hyrwyddo'r grantiau cymorth a chefnogaeth mewn Cylchlythyr WIBSS a anfonwyd at yr holl fuddiolwyr.



Rhagolwg 2022–2023

Bydd y cynllun gwaith ar gyfer 2022–2023 yn cynnwys y canlynol –

- Gwneud cynnydd ar y gwaith a ddechreuwyd gan y tîm Seicoleg a Llesiant ynghylch grwpiau ffocws ac ati.
- Lansio ymgyrch allanol, gyda'r nod o gynorthwyo buddiolwyr yn ystod yr argyfwng costau byw h.y. nodi cynlluniau i ddarparu boeleri newydd, lleihau costau gwresogi ac ati.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw gyfarwyddiadau pellach ac ychwanegol gan Weinidogion yn eu hymateb i argymhellion yr Ymchwiliad.
- Prosesu taliadau iawndal dros dro, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i wneud hynny
- Ymateb i gais Rheol 9 a dderbyniwyd ym mis Gorffennaf 2022 ac unrhyw geisiadau Rheol 9 dilynol a dderbyniwyd.
- Ar 29 Gorffennaf, cyhoeddodd Cadeirydd yr Ymchwiliad adroddiad dros dro hefyd, gydag argymhelliad i wneud taliadau dros dro. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud gan Weinidogion y DU na Gweinidogion Cymru. Ymateb i unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol o ganlyniad i'r ymateb.

